Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Glantwymyn
# Canolfan Glantwymyn
# Glantwymyn
# Machynlleth
# Powys
# SY20 8LX

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Glantwymyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Glantwymyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Nerys Fychan a Sioned Roberts |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Sioned Roberts |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 12 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9.00yb tan 3.30yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17/01/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 08/10/2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/12/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae llawer o blant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Amseru'r sesiynau torfol yn well i gynnal diddordeb pob un plentyn

A2 Gwella'r cyfleoedd i blant blannu a thyfu eu cynnyrch eu hunain

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:  Da**

Mae bron pob un plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn frwdfrydig ac yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr yn ddiffwdan.  Maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn ddyddiol ac maent yn cydymffurfio'n dda â'r gweithdrefnau, fel gwybod bod peg personol ganddynt ar gyfer eu cotiau a'u bagiau.  Mae hwyl yn bodoli ymysg y plant wrth iddynt ymateb yn frwd i ddylanwad ac ysgogiadau'r ymarferwyr, ac mae hyn yn rhan annatod o ethos clós y lleoliad.  O ganlyniad, mae agweddau cadarnhaol y plant yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn diddori'n fawr yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu barnau'n dda ac yn cynnig syniadau at themâu a gweithgareddau dysgu yn ddeallus, trwy gyfrannu at fapiau meddwl.  Er enghraifft, maent yn cynnig syniadau uchelgeisiol, fel teithio ar fws i'r siopau ym Machynlleth, sy'n cael ei weithredu'n effeithiol gan yr ymarferwyr.  Mae'r rhan fwyaf yn penderfynu'n fwriadus ar ba gyfarpar i'w ddefnyddio yn yr ardaloedd chwarae.  O ganlyniad, maent yn dangos cyffro ac annibyniaeth dda wrth drafod stori'r geni ac anrhegion y baban Iesu wrth y tri brenin.  Yn ogystal, maent yn cyfleu eu teimladau'n ddeallus yn ystod amser cylch, ac yn egluro'n bwrpasol pam maent yn hapus neu'n drist.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfeillgar ac yn cydweithredu'n llwyddiannus â'i gilydd.  Er enghraifft, maent yn gwerthu nwyddau wrth dil yn y swyddfa bost yn hyderus ac yn helpu ei gilydd yn llon wrth lapio anrhegion yng ngroto Siôn Corn.  Maent yn pryderu os oes rhywun yn teimlo'n drist ac maent yn amyneddgar â'i gilydd wrth adeiladu sied i garw.  Mae'r rhan fwyaf yn gwrtais ac yn defnyddio moesgarwch rheolaidd yn ystod amser byrbryd.  Yn ogystal, maent yn teimlo eu bod nhw'n llwyddo wrth gwblhau gweithgareddau heriol, fel arllwys sudd lemwn i gwpan ar ôl defnyddio gwasgell.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.  Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol.  Enghraifft dda o hyn yw addurno conau gydag eisin i greu coed Nadolig.  Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae gyda deunyddiau naturiol a defnyddio eu dychymyg yn effeithiol.  Er enghraifft, maent yn archwilio cregyn, moch y coed, brigau ac addurniadau Nadolig yn yr 'ardal rhannau rhydd', a gwisgo dillad Nadoligaidd wrth chwarae rôl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau canu caneuon a rhigymau traddodiadol ac yn deall yn dda eu bod nhw'n mynegi neges wrth wneud ystumiau pwrpasol.  Maent yn ategu at eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol, wrth chwarae gemau bwrdd ac wrth dorri moron ac ysgewyll â siswrn yn ofalus.  Mae bron bob un yn dysgu sut i ddefnyddio offer arall yn effeithlon mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.  Er enghraifft, maent yn chwarae'n ddeallus yn y gegin fwd ac yn ymgymryd â dyletswyddau 'helpwr y dydd' yn fodlon.  Yn ogystal, maent yn golchi eu dwylo yn bwrpasol, mynd i'r toiled yn annibynnol ac yn ymdrechu i wisgo eu cotiau heb gymorth, cyn dewis mynd i'r ardal allanol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae medrau cychwynnol llawer ohonynt yn dda iawn ar lafar yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau a gweithredu arnynt yn dda. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio'n ddiwyd wrth labelu bagiau llwch i ddenu ceirw Siôn Corn i'w tai. Yn ogystal, maent yn dilyn cyfarwyddiadau'n astud wrth wrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymuno'n hyderus mewn rhigymau cyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n eglur wrth gyfrannu i drafodaethau ac wrth ddweud jôcs yn gyhoeddus. Mae llawer yn defnyddio geiriau Cymraeg ac ymadroddion eu hardal yn dda, wrth iddynt fwydo doliau â photeli ac edafu llinyn rhwng dyllau ar wyneb anifail.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn diddori mewn llyfrau ac yn ystyried eu cynnwys yn frwdfrydig. Maent yn trafod digwyddiadau yn effeithiol ac yn trin llyfrau fel darllenwyr ystyrlon. Maent yn ymateb â diddordeb i gynnwys storïau, fel dilyn helyntion pengwin sy'n ymdrechu i hedfan. Mae llawer o blant yn gwneud marciau'n bwrpasol gyda chyfryngau gwahanol fel creonau a phaent. Yn ogystal, maent yn paratoi eu cardiau a'u llythyron Nadolig yn ddiwyd, gan gofio glynu stamp i'r gornel cyn postio. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac mae llawer yn esbonio pwrpas eu hysgrifennu yn huawdl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn dda ac mewn cyd-destunau cywir. Mae'r plant hŷn yn cyfrif hyd at 15 yn hyderus ac yn trafod nodweddion siapiau dau a thri dimensiwn yn ddeallus, gan nodi'r gwahaniaethau rhyngddynt yn gywir. Mae llawer yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn torri toes yn ofalus i greu gwahanol feintiau i bennau a chyrff dynion eira ac yn creu dilyniant o batrymau wrth brintio goleuadau llachar gyda chyrc. Yn ogystal, maent yn defnyddio tafolau yn fwriadus i bwyso 'llai' a 'fwy' o fwyd i geirw Siôn Corn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau TGCh llwyddiannus, trwy ddefnyddio llechi, sgrîn ryngweithiol a theganau electronig i gefnogi'u dysgu yn effeithiol. Maent yn ymgyfarwyddo'n dda â'r dechnoleg, trwy ddefnyddio'r cyfarpar yn hyderus yn eu gweithgareddau dyddiol, fel tynnu lluniau â chamerâu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol da wrth gydsymud i gerddoriaeth a defnyddio cyfarpar anturus yn frwdfrydig. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl a chreadigol pwrpasol, sy'n effeithio'n gadarn ar eu dysgu. Er enghraifft, maent yn creu sioeau gyda phypedau i gyffroi ei gilydd ac addurno coed Nadolig â botymau yn annibynnol i greu calendrau deniadol.

### Gofal a datblygiad: Da

Mae'r holl ymarferwyr yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau dyddiol y lleoliad. Maent yn mynychu hyfforddiant rheolaidd i gefnogi eu harferion yn effeithiol, fel cyrsiau ar gymorth cyntaf, hylendid bwyd a rheoli ymddygiad plant. Maent yn mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol, sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o anghenion y plant yn bwrpasol, ac sy'n sicrhau gofal diwyd ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn fwriadus. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r holl ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid da, fel golchi dwylo a gwisgo ffedogau a menig yn gydwybodol. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau ac anafiadau yn gyson dda ac mae asesiadau risg yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r holl ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant fyw'n iach. Maent yn hybu a chynnig amrywiaeth o ffrwythau a grawnfwyd blasus i'r plant adeg byrbryd, sy'n atgyfnerthu eu hymwybyddiaeth o fwyd maethlon. Yn ogystal, maent yn canolbwyntio ar frwsio dannedd yn ddyddiol, sy'n effeithio'n dda ar ddealltwriaeth y plant o lendid y ceg. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol, fel dawnsio a defnyddio cratiau a theiars mewn tasgau anturus. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd corfforol yn yr ardal allanol i daflu, cyd-bwyso, neidio, dringo ac i gludo cyfarpar trymach o un man i'r llall.

Mae'r holl ymarferwyr yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ac maent yn delio ag unrhyw anesmwythder yn synhwyrol. Maent yn garedig ac addfwyn wrth siarad â'r plant ac mae hyn yn arwain at awyrgylch o fodlonrwydd yn y lleoliad. Maent yn cefnogi'r plant i ddatrys unrhyw wrthdaro ymysg ei gilydd yn dda, fel annog ei gilydd i greu hapusrwydd. Mae systemau gwobrwyo effeithiol yn bodoli ac mae'r plant yn ymateb yn dda i hyn. Maent yn dangos balchder wrth gael gwisgo'r bathodynnau pwrpasol ar ôl bod yn glên gyda'u ffrindiau. Mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd ac yn clodfori eu hymdrechion yn ddiffuant. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ddatblygu gwydnwch ac i ymfalchïo yn eu hunanhyder.

Mae'r holl ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a'r gweithgareddau. Mae systemau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig ac mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allweddol, fel ymwelwyr iechyd, i gefnogi'r plant anghenus. Mae'r lleoliad yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i rieni am gynnydd eu plant. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n ddiwyd a chydwybodol er lles y plant. Maent yn cynnal disgwyliadau uchel ac yn darparu cyfleoedd difyr i'r plant ddysgu trwy brofiadau ymarferol ac ysgogol. Enghreifftiau da o hyn yw creu Siôn Corn allan o does a dilyn helyntion 'Coblyn y Corach' yn ddyddiol. Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn grefftus, sy'n effeithio'n dda ar wella'u medrau meddwl. Yn ogystal, maent yn ymyrryd yn amserol yn ystod gweithgareddau, sy'n atgyfnerthu dysgu annibynnol y plant yn ddeallus. Fodd bynnag, mae'r cyflwyniadau yn ystod sesiynau torfol yn hir ac, o ganlyniad, mae ychydig iawn o blant yn colli diddordeb.

Mae'r holl ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn gadarn. Maent yn cynllunio profiadau dysgu defnyddiol, sy'n targedu diddordebau'r plant yn fwriadus, tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r gweithgareddau effeithiol yn cynnwys heriau i gasglu a rhifo peli o'r dŵr gyda chraen a chreu pryd o fwyd i geirw Siôn Corn gyda moron ac ysgewyll.

Mae'r holl ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn ardderchog ac yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd y plant. Maent yn canolbwyntio'n fedrus ar wella Cymraeg y plant trwy ailadrodd ymadroddion cyson a chanu hwiangerddi bywiog. Mae eu harferion rheolaidd yn cefnogi'r plant yn effeithiol i ddeall cysyniadau mathemategol, fel pwrpas arian a sut i bwyso bwyd gyda thafol a sgŵp.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y plant yn bwrpasol ac yn cynnig cyfleoedd da iddynt ddefnyddio cyfarpar technolegol yn rheolaidd yn eu dysgu. Mae hyn yn herio'r plant yn effeithiol i wella'u medrau TGCh cynnar. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn eu hannog i gydbwyso ar gratiau, dringo a llithro ar gyfarpar anturus, a defnyddio paent i adlewyrchu goleuadau'r goeden Nadolig.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Maent yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol trwy astudio gwyliau crefyddol fel Diwali a Holi. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymreig yn llwyddiannus, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau traddodiadol fel coginio cawl a phobi pice ar y maen.

Gwneir defnydd buddiol o ymwelwyr ac ymweliadau i gyfoethogi profiadau'r plant. Enghreifftiau da yw ymweliadau gan geidwad gwenyn a bydwraig a thaith i'r pentref i bostio llythyron. Mae'r cyfleoedd hyn yn creu ymwybyddiaeth gadarn o bobl eu cymuned a'u milltir sgwâr.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn effeithiol. Mae'r canfyddiadau yn cyfatebu'n ddibynadwy â deilliannau'r plant ac mae'r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, maent yn herio'r plant tuag at y camau nesaf yn eu dysgu yn fwriadus. Mae'r lleoliad yn cynnal cyfarfodydd defnyddiol iawn gyda rhieni a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant. Maent yn darparu adroddiadau manwl iddynt, sy'n adlewyrchu cyflawniadau eu plant yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn defnyddio systemau electronig yn arbennig o dda i arddangos cynnydd eu plant yn wythnosol i rieni.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r holl blant yn derbyn gofal ac addysg effeithiol mewn adeilad sydd wedi ei gynllunio, a'i osod, i hyrwyddo'u hannibyniaeth yn dda. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cymell y plant i ddysgu a datblygu eu medrau'n bwrpasol.

Mae'r defnydd llwyddiannus o'r amgylchedd ac ardaloedd chwarae deniadol yn annog y plant i berfformio ar eu gorau yn gyson. Enghraifft dda o hyn yw'r 'ciwb syndod', lle mae'r plant yn cael cyfle i archwilio gwrthrychau gyda chwyddwydrau. Mae gan y lleoliad amgylchedd croesawgar ac mae'r arddangosfeydd diddorol, o bosteri a gwaith crefft, yn sbarduno'r plant yn llwyddiannus. Yn ogystal, maent yn arddangos llwyddiannau'r plant yn dda a'r camau nesaf yn eu dysgu, sydd yn gymorth i rieni a'r ymarferwyr, wrth dargedu'r ffordd ymlaen i unigolion.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r holl gyfarpar a'r adnoddau wrth gynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu gwerthfawr i'r plant. Mae'r plant yn cael y dewis i ddysgu yn yr ardaloedd mewnol neu yn yr ardal allanol. Mae hyn yn cefnogi eu dysgu'n llwyddiannus ac mae ansawdd da y gweithgareddau yn sicrhau bod plant yn canolbwyntio am gyfnodau llewyrchus. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd yn yr ardal allanol i blant ddysgu sut i blannu a thyfu eu cynnyrch eu hunain.

Mae amrywiaeth effeithiol o adnoddau ymhob ardal sydd o fewn cyrraedd y plant. Mae hyn yn cefnogi eu dysgu a'u hannibyniaeth yn fwriadus, ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt wneud dewisiadau doeth ynglŷn â'u chwarae. Yn ogystal, mae'r cyflenwad eang o adnoddau o ansawdd da ac yn addas i oedran a datblygiad y plant.

Mae ystod dda o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gael, fel llyfrau, doliau a gwisgoedd amrywiol. Yn ogystal, mae adnoddau buddiol i ddatblygu medrau TGCh y plant yn weladwy ar draws yr ardaloedd dysgu, fel sgrîn ryngweithiol, offer sain a chamerâu. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu. Maent yn ailddefnyddio nwyddau a jync yn ddeallus ac, o ganlyniad, yn hybu egwyddorion cynaliadwyedd yn dda. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddatblygu medrau corfforol trwy lithro, dringo a cholli eu gwynt wrth redeg a dawnsio. Yn ogystal, maent yn hybu creadigrwydd a dychymyg y plant yn bwrpasol yn yr ardaloedd adeiladu a pheintio, ac wrth y twb dŵr a'r gegin fwd.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae'r amgylchedd yn ddiogel a glân, ac o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles y plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn creu a chynnal cyfeiriad effeithiol i fywyd a gwaith y lleoliad. Mae hi'n cydweithio'n bwrpasol gyda'r holl ymarferwyr ymroddgar a'r pwyllgor rheoli i sicrhau profiadau diddorol i'r plant, sy'n effeithio'n dda ar eu lles a'u dysgu.

Mae'r arweinydd yn gwrando ar gyngor eraill yn ddeallus, fel athrawes gefnogi yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin, gan weithredu ar unrhyw argymhellion i wella yn fwriadus. Mae hi'n sicrhau bod y polisïau, yr addysgu a'r cynllunio yn canolbwyntio'n fanwl ar fodloni anghenion y plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr ddisgwyliadau cadarn o ran eu hunain a'r plant, ac o'r herwydd, maent yn llwyddo i ddatblygu medrau'r plant yn effeithiol.

Mae'r personau cofrestredig a'r pwyllgor rheoli yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau, goruchwyliadau a thrafodaethau rheolaidd. Mae hyn yn arwain at hyfforddiant penodol i gefnogi'r ymarferwyr ac i wireddu amcanion y lleoliad yn dda. Maent yn defnyddio gweithdrefnau meintiol yr awdurdod lleol i adnabod eu cryfderau a'r materion i'w gwella yn dda. Mae manylder y gweithdrefnau hyn yn canolbwyntio ar dargedau effeithiol yn y cynllun gweithredol, fel creu cyfleoedd i ymarferwyr gynllunio ar y cyd.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn treiddio trwy arferion y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, y plant, ac asiantaethau allanol. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu'r plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella agweddau angenrheidiol sydd angen eu newid. Er enghraifft, maent yn gwrando ar farnau rieni a gofalwyr yn rheolaidd ac yn gweithredu ar y canfyddiadau. O ganlyniad, maent yn defnyddio system gyfathrebu electronig yn arbennig o dda, i hysbysu rhieni a gofalwyr am lwyddiannau a chynnydd eu plant yn wythnosol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn dyrannu adnoddau yn ddoeth. Maent yn sicrhau bod digon o ymarferwyr cymwys ar gael, sydd yn cael eu hyfforddi'n dda, i fodloni anghenion y plant yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r defnydd o gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun gweithredol yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol

ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio parod gyda'r awdurdod lleol i ddefnyddio grantiau yn fwriadus, trwy gyllido adnoddau i gefnogi datblygiad ieithyddol y plant.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau buddiol iawn. Mae'r berthynas rhwng y lleoliad a'r ardal leol yn argyhoeddedig ac mae'r gefnogaeth gan rieni a'r gymuned yn fendigedig. Maent yn cynnal nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus i godi arian sylweddol ar gyfer y lleoliad. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn gweithio'n gydwybodol iawn gyda'r holl bartneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Yn ogystal, mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli gyda'r ysgol. Mae cytundeb llwyddiannus ganddynt i rannu'r safle'n ddeallus ac i baratoi'r plant i'r cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol. Mae partneriaethau cadarnhaol iawn wedi'u ffurfio rhwng y lleoliad a'r eglwys leol. Mae'r gweinidog yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i ddarllen storïau i'r plant. Yn ogystal, mae'r plant yn mynychu sesiynau 'Cawl a Chlonc', i fwyta a sgyrsio gyda phobl hŷn y gymuned leol. Mae'r ymarferwyr yn ymestyn y profiadau hyn trwy ofyn i'r plant ddod ac eitemau bwyd ar gyfer 'bocsys adfent', sy'n cael eu rhannu gyda chynulleidfa'r eglwys.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/02/2020